Canllaw i Fyfyrwyr am Adolygiadau QAA yng Nghymru

Chwefror 2022

Cynnwys

1 Amdanom ni a'n gwaith 1

2 Nod y canllaw hwn 2

3 Adolygiadau addysg uwch yng Nghymru 3
3.1 Dulliau adolygu yng nghyd-destun Cymru a gweddill y DU 3
3.2 Pwyntiau cyfeirio allweddol 3
3.3 Ein hymrwymiadau i'r Gymraeg 4

4 Y camau allweddol o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses adolygu 5
4.1 Cyfranogaeth a chyfraniadau myfyrwyr ym mhrosesau adolygu QAA 5
4.2 Camau allweddol pob adolygiad 6

5 Paratoi cyflwyniad y myfyrwyr 12
5.1 Dethol tystiolaeth 13

6 Y rolau mewn adolygiadau 14
6.1 Y myfyrwyr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr 14
6.2 Yr Hwylusydd 16
6.3 Y protocolau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd 16
6.4 Y Swyddog QAA 17
6.5 Y tîm adolygu 17

Atodiad 1: Rhestr termau 18

Atodiad 2: Cwestiynau i helpu gyda'r gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr 21

Atodiad 3: Rhestr wirio o weithgareddau allweddol y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr mewn prosesau adolygu 23

Atodiad 4: Canllawiau ar gyflwyniadau amgen gan fyfyrwyr yn adolygiadau QAA 26

Cyhoeddir y canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1 Amdanom ni a'n gwaith

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gorff sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig ac sydd â chenhadaeth i ddiogelu safonau academaidd a gwella ansawdd darpariaeth addysg uwch y DU, lle bynnag y mae'n cael ei darparu ledled y byd. Rydym yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y profiad addysg uwch y mae hawl ganddynt ei ddisgwyl. Mae QAA yn annibynnol i lywodraethau, cyrff cynrychioli a darparwyr addysg uwch.

QAA Cymru

Mae QAA Cymru'n gyfrifol am ddatblygu gofynion sicrhau ansawdd, a chyfleoedd i wella ansawdd, sy'n benodol berthnasol i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae QAA Cymru'n datblygu ac yn gweithredu'r broses allanol o adolygu darparwyr addysg uwch ac yn eu cefnogi gyda'u prosesau eu hunain ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd. Mae QAA yn gwneud adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol ar ran Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Ar hyn o bryd, mae dau ddull o adolygu darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Yr Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC) yw'r broses ar gyfer darparwyr sydd eisiau rhoi tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael dynodiad cwrs penodol yng Nghymru i bwrpasau cymorth ariannol i'w myfyrwyr, neu ar gyfer darparwyr sy'n ceisio cael eu rheoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ar gyfer darparwyr a reoleiddir gan CCAUC yn barod, mae'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r safonau addysg uwch yng Nghymru (gan gynnwys y gofynion sylfaenol perthnasol y cytunwyd arnynt i'r DU gyfan). Mae gan bob dull adolygu Lawlyfr Adolygiad cynhwysfawr penodol sy'n nodi manylion y broses adolygu.

2 Nod y canllaw hwn

Prif nod y canllaw hwn yw rhoi cymorth i'r myfyrwyr, cynrychiolwyr y myfyrwyr, y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr ac aelodau o'r staff sy'n cefnogi'r myfyrwyr wrth gymryd rhan ym mhroses adolygu dan arweiniad QAA Cymru. Mae'n dwyn ynghyd yr wybodaeth am y ffyrdd y mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn y prosesau adolygu hyn, o'r Llawlyfrau Adolygiad sydd ar gael ar wefan QAA. Mae'n ymdrin â'r dull, y rolau a'r cyfrifoldebau, yn enwedig cyfrifoldebau'r myfyrwyr ac ym mha ffyrdd y gallan nhw gyfrannu'n llawn at y prosesau adolygu.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae dau ddull adolygu i Gymru:
Yr **Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC)**
a'r **Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA)**.

Mae'r amserlenni a'r camau'n amrywio rhwng y dulliau adolygu hyn, ond mae gweithgareddau cyfranogi tebyg i'w cael ar gyfer y myfyrwyr. Lluniwyd y canllaw hwn i roi trosolwg o'r ffordd y mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu, ac i helpu'r darparwyr a'u myfyrwyr i gynllunio eu gwaith o baratoi ar gyfer y broses. Y nod yw sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol hyd yn oed os yw'r dull adolygu penodol yn amrywio, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol.

Mae myfyrwyr yn chwarae rôl hollbwysig mewn prosesau asesu ansawdd darpariaeth addysg uwch. Er bod y ffordd y mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys a'u cynrychioli'n gwahaniaethu o un darparwr i'r llall, mae partneriaeth a chydweithrediad rhwng y darparwr a'i fyfyrwyr yn elfennau canolog yn nulliau adolygu QAA a'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae pwyslais arbennig yn y canllaw hwn ar fyfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr. Bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn arwain y gwaith o gynnwys a chynrychioli'r myfyrwyr yn y broses adolygu, a bydd yn sicrhau cyfranogaeth cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r gymuned myfyrwyr ehangach yn ystod y broses adolygu. Er bod gan y darparwr a'i fyfyrwyr eu rolau penodol eu hunain, mae pob proses adolygu'n galluogi amrywiol ffyrdd o gydweithio wrth ddatblygu'r elfennau perthnasol, megis hunanasesiad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr, yn ogystal â chyd-ddatblygiad unrhyw gynlluniau gweithredu a gweithrediad camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion a allai ddeillio o'r broses adolygu.

Yn fwriadol, nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r Llawlyfrau Adolygiad ar gyfer y dull adolygu perthnasol ond mae'n cynnig cyngor ategol i alluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu'n llawn drwy gydol y broses adolygu y mae'r darparwr yn ei gweithredu. Os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r broses adolygu, mae croeso i chi gysylltu â QAA Cymru drwy anfon e-bost at ARCAdmin@qaa.ac.uk.

Trwy gydol y canllaw hwn, mae 'darparwyr' yn cyfeirio at brifysgolion a cholegau. Weithiau mae'r iaith a ddefnyddir mewn prosesau adolygu'n gallu bod yn 'dechnegol', felly mae rhestr termau sy'n cynnwys rhai termau a diffiniadau allweddol a ddefnyddir mewn perthynas â'r prosesau adolygu (Atodiad 1) i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn. Hefyd, mae gan y Llawlyfrau Adolygiad atodiad gyda 'Diffiniadau o dermau allweddol' y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r rhestr termau sydd yn y canllaw hwn. Yn ogystal, mae rhestr termau QAA ar gael sy'n cynnwys ystod ehangach o dermau a ddefnyddir mewn perthynas â sicrhau a gwella ansawdd.

3 Adolygiadau addysg uwch yng Nghymru

Datblygwyd dulliau adolygu dan arweiniad QAA Cymru yn benodol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'r system reoleiddio ar gyfer addysg uwch yng Nghymru'n wahanol i'r system yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr ond mae'n rhan o'r hyn y cyfeirir ato fel addysg uwch y DU. Ystyr hynny yw bod sectorau addysg uwch pedair gwlad y DU wedi eu datganoli ac mae gan bob un system reoleiddio sy'n alinio â phwyntiau cyfeirio penodol y cytunwyd arnynt i sicrhau bod dulliau o sicrhau ansawdd y cymwysterau, y dysgu a'r addysgu'n gyffredin ar draws y DU. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff sy'n rheoleiddio a chyllido addysg uwch yng Nghymru. Mae'r defnydd a wneir o *bwyntiau cyfeirio allanol* wrth siarad am adolygiadau a dulliau adolygu'n dangos bod y ffyrdd y mae ansawdd addysg uwch yn cael ei sicrhau yn y DU yn rhan o system ehangach o arferion y cytunwyd arnynt. Mae'r adran hon yn nodi'r prif bwyntiau cyfeirio, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth lefel uchel ynglŷn â sut mae'r dulliau adolygu hyn yn gweithredu o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru a gweddill y DU. Mae'r canllaw'n cynnwys nifer o enwau dogfennau, cyrff a sefydliadau, a thermau technegol eraill y mae rhestr termau ar eu cyfer yn Atodiad 1.

3.1 Dulliau adolygu yng nghyd-destun Cymru a gweddill y DU

Mae'r ddau adolygiad, yr Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC) a'r Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn darparu eu dulliau nodedig eu hunain o wneud adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yng Nghymru. Cafodd y dulliau hyn eu datblygu gan QAA Cymru, mewn cydweithrediad â'r darparwyr yng Nghymru, Prifysgolion Cymru a ColegauCymru, i fodloni gofynion CCAUC ac i ymdrin â chyd-destun y sector addysg uwch yng Nghymru. O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae gofyn i CCAUC asesu ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob darparwr a reoleiddir.

Nod y broses Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yw penderfynu a yw darparwyr yn bodloni gofynion sylfaenol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC). Gallai canlyniadau llwyddiannus Adolygiad APC hysbysu cais am ddynodiad penodol yng Nghymru. Yr Adolygiad APC hefyd yw'r broses sy'n rhoi cyfle i ddarparwyr wneud cais am gael eu 'rheoleiddio' gan CCAUC yn dilyn dau adolygiad llwyddiannus.

Yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yw enw'r broses y mae CCAUC yn ei defnyddio i barhau i sicrhau bod darparwyr a reoleiddir yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru (gan gynnwys y gofynion sylfaenol perthnasol y cytunwyd arnynt i'r DU gyfan). Nod cyffredinol yr Adolygiad GA yw hysbysu corff llywodraethu'r darparwr, myfyrwyr, CCAUC a'r cyhoedd ehangach a yw'r darparwr yn bodloni disgwyliadau sylfaenol perthnasol y FfAAC - gan gynnwys mewn perthynas â gosod a chynnal safonau academaidd, cynnal profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr, ac ategu'r pwyslais yn y FfAAC ar wella canlyniadau'r myfyrwyr a phrofiad academaidd y myfyrwyr.

Mae pob darparwr sydd wedi cael canlyniad boddhaol yn gymwys i ddefnyddio graffigyn QAA. Gall y darparwyr ddefnyddio'r graffigyn hwn ar eu gwefannau ac yn eu deunyddiau hyrwyddo i ddangos i'w myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill eu bod wedi cyflawni neu wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r DU o ran ansawdd a safonau yn eu hadolygiad gan QAA.

3.2 Pwyntiau cyfeirio allweddol

Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) yn disgrifio model asesu ansawdd CCAUC sydd wedi ei danategu gan gyfres o ofynion rheoleiddiol sylfaenol sy'n cynnwys pwyntiau cyfeirio allanol yn y tirlun addysg uwch. Mae'r pwyntiau cyfeirio hyn yn cynnwys y

Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd). Mae'r FfAAC hefyd yn cynnwys gweithgareddau sy'n sicrhau cyfranogaeth y myfyrwyr, megis adolygiadau sicrwydd bob tair blynedd, adolygiad blynyddol o ddata'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), a datganiadau sicrwydd blynyddol gan gyrff llywodraethu'r darparwyr, sydd fel arfer yn cynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr.

Y gofynion sylfaenol sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru
Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) Mae'r FHEQ yn pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau ac yn nodi'r gofynion generig ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar bob un o'r lefelau hyn. Mae'r fframweithiau'n dangos pa gymwysterau sydd ar yr un lefel ac yn awgrymu sut y gallai un cymhwyster arwain at un arall, naill ai ar yr un lefel neu ar lefel uwch.
Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) Mae'r FfCChC yn disgrifio'r system gymwysterau yng Nghymru, yn cynnwys y rheiny mewn dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch. Mae'n esbonio cynnydd i mewn i addysg uwch, ac mae'n disgrifio'r broses o gasglu credydau a'r ffordd y gall darparwyr hwyluso trosglwyddo credydau.
Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU Mae'r Cod Ansawdd yn disgrifio'r egwyddorion sylfaenol y dylid glynu atynt i sicrhau ansawdd a safonau academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion megis pwysleisio rôl y darparwyr yn y gwaith o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cynnig i'w myfyrwyr, cefnogi ymgysylltiad y myfyrwyr, a sicrhau y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn sicrhau cywirdeb y dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn berthnasol i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Mae'r Cod Ansawdd yn nodi Disgwyliadau, Arferion Craidd ac Arferion Cyffredin sy'n nodi'n glir ac yn gryno beth yw'r canlyniadau y dylai darparwyr eu sicrhau wrth osod a chynnal safonau eu dyfarniadau, ac wrth reoli ansawdd eu darpariaeth.

3.3 Ein hymrwymiadau i'r Gymraeg

Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau yng Nghymru, mae QAA Cymru wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn yn golygu bod QAA yn rhoi ystyriaeth i'r disgwyliadau hynny yn y Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i ni o dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, a gall wneud rhannau o'r broses adolygu yn y Gymraeg, gan gyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gall y darparwyr gyflwyno eu dogfen hunanwerthusiad ac unrhyw ddogfennau eraill yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis. Gall cyflwyniad y myfyrwyr hefyd gael ei gyflwyno yn y naill iaith neu'r llall. Hefyd, mae QAA Cymru'n ceisio penodi adolygwyr a rheolwyr adolygiad sy'n ddwyieithog. Bydd y Swyddog QAA yn sicrhau bod y dewisiadau iaith yn cael eu cytuno ar gamau cychwynnol y broses. Mae'r dewisiadau iaith y cytunir arnynt yn berthnasol ar gyfer yr iaith y gweithredir y broses adolygu ynddi a'r iaith a ddewisir gan gyfranogwyr unigol yr adolygiad. Caiff pob dogfen â phob adroddiad sy'n ymwneud â'r adolygiad eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Mae'r Llawlyfrau Adolygiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y dulliau adolygu. Mae hysbysiad cydymffurfio QAA ar gael ar ei gwefan hefyd.

4 Y camau allweddol o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses adolygu

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r camau sy'n rhan o adolygiadau QAA Cymru a'r amrywiaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan. Nod y prosesau adolygu yw sicrhau bod y myfyrwyr yn cael profiad academaidd o safon uchel a bod y safonau academaidd yn cael eu gosod yn briodol ac yn parhau'n ddiogel. Mae hynny'n golygu bod y graddau a enillir yn sefydliadau'r darparwyr hyn yn gymaradwy ar draws holl ddarparwyr yng Nghymru a gweddill y DU, ac yn cadw eu gwerth dros amser.

Gall y myfyrwyr gymryd rhan yn y prosesau adolygu drwy:

- enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a fydd yn cymryd rhan yn y broses adolygu gyfan
- lunio cyflwyniad y myfyrwyr a hyrwyddo ymgysylltiad y myfyrwyr - dan arweiniad y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr
- gyfrannu at gyflwyniad y myfyrwyr drwy ddisgrifio'r profiad academaidd a'r ffyrdd y mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau sicrhau ansawdd y darparwr
- sicrhau bod cyflwyniad y myfyrwyr yn adlewyrchu barn y myfyrwyr
- weithio mewn partneriaeth â'r darparwr drwy gydol y broses adolygu
- gymryd rhan yn y gwaith o baratoi hunanasesiad y darparwr
- gadw staff yn ymwybodol o ddatblygiad cyflwyniad y myfyrwyr neu gyfraniadau eraill dan arweiniad y myfyrwyr.

Ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn, mae dau ddull adolygu i Gymru - yr Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC) a'r Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA). Mae'r amserlenni a'r camau'n amrywio rhwng y dulliau adolygu hyn. Fel y disgrifiwyd uchod, lluniwyd y canllaw hwn i roi cymorth i fyfyrwyr gyda'r ddau ddull cyfredol, ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd yn oed os yw'r dull adolygu penodol yn amrywio, felly dylid darllen y canllaw ochr yn ochr â'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol.

4.1 Cyfranogaeth a chyfraniadau myfyrwyr ym mhrosesau adolygu QAA

Mae QAA Cymru wedi ei hymrwymo i annog y myfyrwyr yn frwd i ymgysylltu â'r broses adolygu a chymryd rhan ynddi. Mae adolygiadau QAA yn canolbwyntio'n sylweddol ar ba mor effeithiol y mae'r darparwr yn cydweithio â'i fyfyrwyr i sicrhau a gwella ansawdd. Dylai partneriaethau fod yn gyfartal, dylent gael eu seilio ar barch cyfartal a thargedau cyffredin, a dylent ddefnyddio'r gwahanol sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a gallu sydd gan bob partner. Yn y maes gwelliant ansawdd, mae wedi dod yn arfer sefydledig bod y myfyrwyr yn bartneriaid cyfartal yn y prosesau o ffurfio, cyflwyno, gweithredu a gwerthuso dulliau'r darparwr o sicrhau ansawdd.

Mae'n rhaid i bob tîm adolygu ystyried barn y myfyrwyr sy'n astudio gyda'r darparwr ar adeg yr adolygiad ac archwilio pa mor effeithiol yw'r ffordd y mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr yn ei amrywiaeth gyfan. Bydd gan y tîm adolygu ddiddordeb

arbennig yn y dull a ddefnyddir i gynnwys y myfyrwyr yn y broses o sicrhau a gwella eu profiadau dysgu eu hunain.

Bydd cyfleoedd i'r myfyrwyr ddatblygu eu cyflwyniad myfyrwyr eu hunain, datblygu cyflwyniad ar y cyd â'r darparwr, neu gyfrannu at hunanasesiad y darparwr.

4.2 Camau allweddol pob adolygiad

Er bod pob dull adolygu wedi ei deilwra'n arbennig, ac er bod dulliau gwahanol gan yr Adolygiad APC a'r Adolygiad GA, bydd gan bob proses adolygu bum cam allweddol o gyfranogaeth gan y myfyrwyr:

1 Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr
2 Gwaith cychwynnol o baratoi a chyflwyno
3 Paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle
4 Yr ymweliad(au) adolygu ar y safle
5 Adrodd am y canlyniadau.

Bydd pob un o'r camau hyn yn rhan bwysig o'r broses adolygu, er bod ganddyn nhw deitl neu ddisgrifiad gwahanol efallai a bydd eu hamseriadau'n amrywio yn dibynnu ar y dull adolygu penodol. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r camau. Mae pob cam yn cynnig cyfleoedd pwysig i'r myfyrwyr ymgysylltu â'r broses a chymryd rhan ynddi ac mae'r rhain wedi eu disgrifio'n fanylach isod. Yn ychwanegol at y disgrifiadau isod o bob un o'r camau allweddol, mae Adran 5 yn cynnwys canllaw ar wahân am gyflwyniad y myfyrwyr. Mae hefyd adran rhwydd i'w chwilio am y swyddogaethau o fewn adolygiadau (Adran 6).

4.2.1 Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr

I gychwyn, bydd QAA Cymru'n cysylltu â'r darparwr i'w hysbysu am yr adolygiad sydd ar y gweill ac yn nodi amseriadau ar gyfer yr adolygiad. Mae hyd yr Adolygiad GA yn estynedig, gyda'r cysylltiad cyntaf yn digwydd hyd at 18 mis cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer yr adolygiad a sesiwn briffio i'r darparwr tua 12 mis cyn yr adolygiad. Ar gyfer yr Adolygiad APC, bydd y cysylltiad cyntaf o leiaf 15 wythnos cyn yr adolygiad.

Mae'r cysylltiad cyntaf yn gyfle i'r darparwr a'i fyfyrwyr ddechrau eu trefniadau adolygu. Bydd y darparwr yn penderfynu pwy fydd yn gweithredu fel Hwylusydd - sef yr aelod arweiniol o staff sy'n cyfathrebu â QAA a'r tîm adolygu, ac a fydd yn cysylltu â'r staff a'r myfyrwyr. Lle'r myfyrwyr yw hi i benderfynu pwy ddylai gymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr - sef y myfyriwr arweiniol a fydd yn cyfathrebu â QAA a'r tîm adolygu, ac yn cysylltu â'r myfyrwyr, y staff a'r Hwylusydd. Mae rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn gyfartal â rôl yr Hwylusydd ac mae hyn yn cynrychioli dull partneriaeth y broses adolygu.

Tabl 1: Y camau allweddol o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses adolygu

Y cam	QAA	Y darparwr	Y myfyrwyr
Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr	QAA yn hysbysu'r darparwr am y trefniadau ar gyfer y dull adolygu perthnasol	Y darparwr yn enwebu ei Hwylusydd	Y myfyrwyr yn enwebu eu Prif Gynrychiolydd
	Canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol i wneud yr adolygiad ynddi		
Gwaith cychwynnol o baratoi a chyflwyno	QAA yn gwneud yr asesiad cychwynnol o'r darparwr; QAA yn trefnu sesiwn briffio* i'r darparwr, a allai fod yn sesiwn wyneb yn wyneb neu rithwir; QAA yn cadarnhau hyd yr ymweliad(au) adolygu ar y safle a chyfansoddiad y tîm adolygu	Y darparwr yn mynychu'r sesiwn briffio; y darparwr yn paratoi ac yn lanlwytho ei hunanasesiad a'r dystiolaeth ategol	Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn mynychu'r sesiwn briffio; y myfyrwyr yn paratoi eu cyflwyniad** (llwythir cyflwyniad y myfyrwyr ar yr un pryd â hunanasesiad y darparwr)
Paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle	Y tîm adolygu'n gwneud dadansoddiad pen desg; y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod y tîm; QAA yn hysbysu'r darparwr am amserlen yr ymweliad, pwy mae'r tîm eisiau cyfarfod â nhw ac unrhyw gais am dystiolaeth ychwanegol	Y darparwr yn paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle	Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle
Yr ymweliad(au) adolygu ar y safle	Gwneir yr ymweliad(au) adolygu ar y safle***	Cynhelir cyfarfodydd rhwng y tîm adolygu a staff y darparwr	Cynhelir cyfarfodydd rhwng y tîm adolygu a'r myfyrwyr
Adrodd am y canlyniadau	Safonir y canfyddiadau; anfonir yr adroddiad drafft at y darparwr Cynhyrchir yr adroddiad terfynol Anfonir y beirniadaethau a'r adroddiad at CCAUC; cyhoeddir yr adroddiad ar wefan QAA	Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi sylwadau ar y cywirdeb ffeithiol	
		Y darparwr yn ystyried y canfyddiadau ac unrhyw gamau gweithredu priodol - mae'n llunio cynllun gweithredu	Y myfyrwyr yn ystyried y canfyddiadau ac unrhyw gamau gweithredu priodol - gan weithio mewn partneriaeth â'r darparwr i lunio cynllun gweithredu

* Ar gyfer yr Adolygiad GA, bydd QAA yn cysylltu â'r darparwr oddeutu blwyddyn cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer yr adolygiad. Bydd y darparwr yn archwilio ar y cyd gyda QAA gwmpas gofynnol yr adolygiad, a sut y byddai'r darparwr yn rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun ac yn ei deilwra yng nghyd-destun ei genhadaeth, ei broffil myfyrwyr a'i flaenoriaethau strategol. Cynhelir y cyfarfod paratoadol fel arfer rhwng 11 a 27 wythnos cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer yr adolygiad, yn dibynnu ar y dull adolygu penodol.

** Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyniad y myfyrwyr ar gael yn Adran 5, ond mae'n bwysig cyfeirio at y Llawlyfr Adolygiad perthnasol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni ac i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio dogfennau a chyfresi data sy'n bodoli'n barod a/neu baratoi cyflwyniadau mewn ffurfiau amgen.

*** Yn dibynnu ar y dull adolygu penodol, efallai y bydd ymweliad cychwynnol gan y tîm adolygu - mae hyn yn arferol ar gyfer yr Adolygiad GA. Gallai'r ymweliad adolygu sylweddol ar y safle bara oddeutu 2 ddiwrnod (yr Adolygiad APC) neu hyd at 5 niwrnod (yr Adolygiad GA). Bydd nifer yr ymweliadau a'u hyd tebygol wedi eu nodi yn y Llawlyfr Adolygiad perthnasol.

Mae dewis y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn dasg bwysig i fyfyrwyr. Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn rhywun sy'n cael y cyfle i gynrychioli barn y corff myfyrwyr amrywiol, er bod safbwyntiau'n cael eu casglu fel arfer drwy ddefnyddio ystod o ddulliau sy'n bodoli'n barod - er enghraifft, ni ddisgwylir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr wneud arolygon myfyrwyr arbennig er mwyn cyflawni'r rôl. Ar gyfer darparwyr sydd ag undeb myfyrwyr, neu gorff cyfatebol, sefydledig a gweithredol, bydd un o swyddogion undeb y myfyrwyr yn cymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fel arfer.

Ystyriwch y syniadau/awgrymiadau hyn

- Os nad oes undeb myfyrwyr neu gorff cyfatebol, gellid dewis y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr o blith cynrychiolwyr y myfyrwyr, neu gallai aelod o'r staff ofyn i gynrychiolwyr y myfyrwyr wirfoddoli a/neu enwebu rhywun.
- Mae modd i grŵp o gynrychiolwyr y myfyrwyr gytuno i weithio gyda'i gilydd ac enwebu un o'r cynrychiolwyr uwch i gymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.
- Gall y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ystyried ffyrdd o rannu'r tasgau ymysg cyd-fyfyrwyr - swyddogion undeb y myfyrwyr o bosib.
- Efallai y bydd staff yn gallu rhoi cefnogaeth i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.
- Mae'n bosibl rhannu rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr rhwng dau gynrychiolydd myfyrwyr - cofiwch roi gwybod i'r Swyddog QAA os mai dyma sy'n digwydd.
- Efallai y bydd y darparwr yn gallu cynnig gwasanaeth gan un o weinyddwyr y sefydliad neu ei adrannau i gefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.
- Os na chynigir cymorth, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ofyn am gymorth gan yr Hwylusydd.

Gallai'r penderfyniad i benodi unigolyn i'r rôl gael ei gytuno mewn cyfarfod o undeb y myfyrwyr.

Ni ddylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn aelod o'r staff, er y gallai hynny fod yn dderbyniol os ydyw hefyd yn fyfyriwr sy'n astudio gyda'r darparwr ar hyn o bryd - bydd y Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn cynnwys arweiniad os yw aelod o'r staff yn ystyried gweithredu fel y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Yn dibynnu ar y dull adolygu penodol, mae'n bosibl na fydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn fyfyriwr gyda'r darparwr mwyach erbyn adeg yr ymweliad adolygu. Felly, efallai y bydd hi'n bwysig ystyried pwy fydd yn gallu cymryd y rôl yn ei le/lle yn ddiweddarach, efallai yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, a chynllunio gweithgareddau trosglwyddo priodol.
Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn Adran 6.

4.2.2 Gwaith cychwynnol o baratoi a chyflwyno

Efallai y bydd y Swyddog QAA yn cynnal un neu ddau o gyfarfodydd gyda'r darparwr. Gallai'r rhain gael eu galw'n gyfarfodydd darparwr neu'n gyfarfodydd paratoadol, ac mae ffocws pob cyfarfod wedi eu nodi yn y Llawlyfr Adolygiad perthnasol. Gallai'r cyfarfodydd hyn gyda'r darparwr fod yn rhai wyneb yn wyneb neu rithwir. Yn y cyfarfod(ydd), mae hyd yr ymweliad(au) ar y safle ac aelodau'r tîm adolygu'n cael eu cadarnhau. Mae'r Swyddog QAA yn cadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth gan y darparwr a gan ei fyfyrwyr ynghyd â'r trefniadau ymarferol ar gyfer yr ymweliad(au). Unwaith y bydd y dyddiad ar gyfer yr ymweliad(au) ar y safle wedi ei gadarnhau, bydd QAA Cymru'n disgwyl i'r darparwr rannu'r wybodaeth hon gyda'i gorff myfyrwyr ac esbonio iddynt sut y gallent gyfranogi a chyfrannu at y broses. Mae'n arfer da i'r

Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd weithio gyda'i gilydd i gytuno ar ffyrdd o roi gwybod i'r myfyrwyr a sicrhau eu cyfranogaeth ac hefyd bennu cefnogaeth i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Gall y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ddefnyddio'r cyfarfod(ydd) gyda'r darparwr fel cyfle i gysylltu â'r Swyddog QAA ynghylch cyflwyniad y myfyrwyr a sut y bydd y myfyrwyr yn cael eu dewis ar gyfer cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu. Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyniad y myfyrwyr i'w gweld yn Adran 5. Cyfrifoldeb y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fydd dethol myfyrwyr, ond gallai ef/hi ddewis gweithio mewn partneriaeth â'r Hwylusydd, neu gyda chydweithwyr eraill o blith y myfyrwyr.

Mae'n ddefnyddiol i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Swyddog QAA drafod y nifer o gyfarfodydd â myfyrwyr sy'n debygol o gael eu cynnal a'r nifer o gyfranogwyr fyddai orau ymhob cyfarfod. Bydd y tîm adolygu eisiau cyfarfod â grŵp cynrychiadol o'r myfyrwyr, mae un o bob rhaglen yn debygol o fod yn ormod i gynnal trafodaeth ystyrlon; ond i'r un graddau, mae'n debyg na fyddai llond llaw o fyfyrwyr yn sicrhau cynrychiolaeth dda. Fel arfer, os yw'r darparwr yn cynnig darpariaeth ôl-raddedig, bydd y tîm adolygu eisiau cyfarfod â detholiad eang o'r myfyrwyr sy'n cynnwys myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ystyried dewis myfyrwyr llawn amser a rhan amser o bob rhan o'r meysydd astudio, ac o wahanol flynyddoedd astudio. Gallai fod yn ddefnyddiol creu matrics i gefnogi'r broses ddethol ac i sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn cael ei chynrychioli'n dda.

Ar ôl y sesiwn briffio, bydd y staff a'r myfyrwyr yn paratoi ac yn lanlwytho hunanasesiad y darparwr, cyflwyniad y myfyrwyr a'r dystiolaeth ategol, yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y Llawlyfr Adolygiad a'r dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt gyda'r Swyddog QAA.

4.2.3 Paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle

Cyn yr ymweliad ar y safle, bydd y tîm adolygu'n gwneud dadansoddiad pen desg o hunanasesiad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr. Yn dibynnu ar y dull adolygu penodol, bydd data ychwanegol a allai fod ar gael gan CCAUC a gwybodaeth gyd-destunol arall yn derbyn ystyriaeth fel y mae wedi ei grynhoi yn y Llawlyfr Adolygiad perthnasol. Bydd y tîm adolygu'n cynnal rhith-gyfarfod i drafod ei waith dadansoddi ac i baratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu a'r cyfarfod ar y safle. Gallai'r tîm adolygu ofyn am dystiolaeth ychwanegol ar y cam hwn.

Dylai hunanasesiad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr gael eu rhannu gyda'r myfyrwyr a ddewisir i gwrdd â'r tîm adolygu.

Mae'n ddefnyddiol i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr drefnu digwyddiad briffio i gynrychiolwyr y myfyrwyr cyn yr ymweliad adolygu. Bydd hwn yn gyfle i grynhoi'r broses adolygu a chyfranogaeth y myfyrwyr. Ar hyn o bryd gall unrhyw bynciau y cytunwyd eu bod nhw'n feysydd i ganolbwyntio arnynt yn y cyfarfod(ydd) gyda'r darparwr gael eu rhannu a'u trafod. Bydd hwn yn gyfle da i gynrychiolwyr y myfyrwyr ofyn cwestiynau am y broses, yr ymweliad adolygu neu gyflwyniad y myfyrwyr. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr geisio cymorth gan yr Hwylusydd neu aelodau uwch eraill o'r staff i weithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i drefnu digwyddiad o'r fath a chefnogi'r sesiwn briffio. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr o gwestiynau sydd wedi eu bwriadu i roi hwb i'r myfyrwyr i'w helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu eu cyflwyniad. Gallai'r rhestr hon fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer sesiynau briffio i'r myfyrwyr fel arweiniad i'r 'math' o gwestiynau y gallent eu gofyn mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

Mae'n arferol i rai o'r myfyrwyr a ddewiswyd adael y broses - er enghraifft, oherwydd salwch neu ymrwymiadau eraill - felly mae'n ddefnyddiol cadw golwg ar y niferoedd a gwahodd pobl eraill i gymryd eu lle fel y bo'n briodol. Wrth i'r ymweliad adolygu ddynesu, gallai Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr deimlo o dan bwysau. Bryd hynny, mae'n bwysig i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr geisio cymorth gan gyd-fyfyrwyr a'r Hwylusydd. Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr wirio o weithgareddau i gefnogi gwaith trefnu a pharatoi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

4.2.4 Yr ymweliad(au) adolygu ar y safle

Mae'r ymweliad(au) ar y safle'n galluogi i'r tîm adolygu gwrdd â'r staff, y myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, fel sy'n briodol i'r broses adolygu. Bydd hyd y prif ymweliad adolygu ar y safle'n dibynnu ar y dull adolygu penodol. Fel arfer, bydd yr ymweliad ar y safle sy'n rhan o'r Adolygiad APC yn para am ddau ddiwrnod, ond bydd yr ymweliad ar gyfer yr Adolygiad GA yn para rhwng tri a phum niwrnod fel arfer - gallai hyn amrywio, yn dibynnu ar yr asesiad cychwynnol o'r darparwr.

Bydd y Swyddog QAA yn rhannu amserlen ar gyfer yr ymweliad ar y safle gyda'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd yr amserlen hon yn amlinellu gweithgareddau'r tîm adolygu, gan gynnwys y cyfarfodydd arfaethedig gyda myfyrwyr. Unwaith y bydd hyn wedi ei dderbyn, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gadarnhau enwau'r myfyrwyr a fydd yn mynd i bob cyfarfod unigol. Efallai y bydd rhai newidiadau ac efallai na fydd angen rhai o'r myfyrwyr bellach ac efallai na fydd rhai ar gael ar gyfer cyfarfodydd, yn enwedig os yw'r amseroedd wedi newid. Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gadarnhau dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr perthnasol.

Fel y nodwyd uchod, mae Atodiad 2 yn rhestru detholiad o gwestiynau posibl y gallai'r tîm adolygu eu gofyn yn ei gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr. Ond, mae'n bwysig bod pob myfyriwr sy'n cyfarfod â'r tîm adolygu'n talu sylw drwy'r amser ac yn ateb y cwestiynau a ofynnir oherwydd efallai y bydd gan y cwestiynau ffocws penodol ar sail llinellau ymholiad y tîm adolygu. Mae'n bwysig i'r myfyrwyr fod yn agored ac yn onest gyda'r tîm adolygu. Mae'r tîm adolygu'n awyddus iawn i glywed barn y myfyrwyr a sut brofiad yw bod yn fyfyriwr yn sefydliad y darparwr. Os oes pryder, dylid nodi hwn yn ddienw. Ni fydd sylwadau unrhyw fyfyriwr unigol yn cael eu pasio yn ôl at y darparwr; ond, dylai'r myfyrwyr roi atebion a chyfrifon ar sail profiad myfyriwr nodweddiadol a pheidio canolbwyntio ar ddigwyddiadau penodol sydd wedi effeithio arnyn nhw'n bersonol.

Mae'n arferol i gyfarfodydd gyda'r tîm adolygu ddigwydd wyneb yn wyneb. Ond, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae sefydliadau ac unigolion wedi dod yn gyfarwydd â chyfarfodydd rhithwir ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd. Felly, gallai rhai o'r cyfarfodydd ddigwydd yn rhithwir, yn enwedig os na fydd hi'n ymarferol i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Er enghraifft, pan fydd darpariaeth addysg drawswladol o dan adolygiad, efallai y cynhelir cyfarfod rhithwir gyda champysau cangen tramor neu bartneriaid darparu tramor a fydd yn cynnwys eu staff a'u myfyrwyr. Yn yr un modd, efallai y byddai cynnal cyfarfod rhithwir, yn rhan o'r broses o adolygu sefydliad sydd â mwy nag un campws, yn galluogi i fwy o fyfyrwyr gymryd rhan. Dylid trafod a chytuno ar ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir gyda'r Swyddog QAA cyn yr ymweliad adolygu.

Yn ystod yr ymweliad, bydd y tîm adolygu'n cysylltu bob dydd â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd i egluro unrhyw dystiolaeth neu i ofyn am ragor o wybodaeth. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd hefyd awgrymu cyfarfodydd anffurfiol gyda'r tîm adolygu i dynnu sylw'r tîm at wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r adolygiad.

Mae'r ymweliad adolygu'n cynnwys 'cyfarfod terfynol' rhwng y tîm adolygu, staff uwch y darparwr, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd. Mae'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn cynnwys manylion y cyfarfod terfynol. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i'r darparwr gynnig eglurhad a chyflwyno tystiolaeth a allai helpu'r tîm adolygu i ffurfio ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau.

Ar ddiwedd yr ymweliad, bydd y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod preifat i drafod y canfyddiadau a chytuno ar ei feirniadaethau. Ni chaiff y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd eu gwahodd i'r cyfarfod hwn, ond efallai y byddent yn derbyn adborth llafar nad yw'n rhwymol, yn dibynnu ar y dull adolygu penodol.

4.2.5 Adrodd am y canlyniadau

Ar ôl cwblhau'r broses adolygu, bydd y darparwr yn derbyn adroddiad sy'n cynnwys y beirniadaethau a roddwyd iddo yn yr adolygiad. Mae'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn cynnwys disgrifiad eglur o'r beirniadaethau a ddefnyddir yn y dull adolygu penodol. Ar hyn o bryd, mae'r beirniadaethau a ddefnyddir yn yr Adolygiad GA a'r Adolygiad APC yn wahanol.

Y beirniadaethau yn yr Adolygiad GA

- Yn bodloni'r gofynion
- Yn bodloni'r gofynion gydag amodau
- Ddim yn bodloni'r gofynion

Yn yr Adolygiad GA, ystyrir bod y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' yn ganlyniad cadarnhaol. Ystyrir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' a 'ddim yn bodloni'r gofynion' yn ganlyniadau anfoddhaol. Os gosodir amodau, bydd hyn yn dangos bod un neu fwy o faterion yn achosi pryder sylweddol a bod angen cymryd camau dilyniant i gwblhau'r broses adolygu. Os bydd y darparwr yn derbyn y feirniadaeth 'anfoddhaol', bydd angen iddo ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i unioni'r gwendidau. Dylai'r cynllun gweithredu gael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â chorff cynrychioli'r myfyrwyr. Bydd QAA Cymru'n cefnogi'r darparwyr i gwblhau cynllun gweithredu, yn monitro eu datblygiad o fewn yr amseriadau y cytunwyd arnynt, ac yn cadarnhau bod y camau gweithredu a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol. Gallai hyn gynnwys cyfarfod dilyniant gyda'r darparwr. Mae'n bosibl gwyrdroi beirniadaethau 'anfoddhaol' ar ôl cyfnod o 12 mis. Os bydd y beirniadaethau'n cael eu newid i 'yn bodloni'r gofynion', ystyrir bod yr adolygiad yn 'llwyddiannus'.

I gyd-fynd â chanlyniad boddhaol yn yr adolygiad, gallai'r tîm adolygu roi un neu fwy o argymhellion i sicrhau a chryfhau arferion y darparwr mewn perthynas â safonau academaidd ac ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr. Os rhoddwyd argymhelliad, bydd hyn yn dangos bod gwendid neu faes a allai achosi pryder, er enghraifft mewn perthynas â gweithdrefn neu broses. Bydd disgwyl i'r darparwyr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion, a dylai'r myfyrwyr gael cyfle i gymryd rhan yn y broses hon.

Yn ychwanegol at y beirniadaethau cyffredinol, gallai'r tîm adolygu 'ganmol' rhai agweddau o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth o arferion sy'n gwneud cyfraniad arbennig o gadarnhaol i brofiad academaidd y myfyrwyr. Yn dilyn hynny, gall y darparwyr dderbyn cefnogaeth gan QAA Cymru i rannu arferion da'n ehangach; gwneir hyn yn aml drwy gynhyrchu astudiaethau achos a allai gael eu paratoi mewn partneriaeth â'r myfyrwyr.

Ar ôl safoni a gwirio'r beirniadaethau a'r adroddiad(au) adolygu i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir, byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan QAA yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae manylion llawn y broses adrodd i'w gweld yn y Llawlyfr Adolygiad.

Y beirniadaethau yn yr Adolygiad APC

- Hyder
- Hyder cyfyngedig
- Dim hyder

Yn yr Adolygiad APC, ystyrir y beirniadaethau o 'hyder' yn foddhaol. Ystyrir y beirniadaethau o 'hyder cyfyngedig' a 'dim hyder' yn anfoddhaol. Os rhoddwyd y feirniadaeth 'anfoddhaol', bydd hyn yn dangos nad yw'r darparwr yn cydymffurfio ag un neu fwy o'r gofynion ansawdd sylfaenol sy'n berthnasol i addysg uwch yng Nghymru.

Pan fydd y darparwr wedi derbyn y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' mewn un neu ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth, bydd gofyn i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin â'r meysydd sydd angen eu datblygu a'r gwelliannau penodol a nodwyd. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â chorff cynrychioli'r myfyrwyr, a'i lofnodi gan bennaeth y darparwr.

Ar ôl safoni a gwirio'r beirniadaethau a'r adroddiad adolygu terfynol i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir, byddent yn cael eu hanfon at CCAUC a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan QAA yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae manylion llawn y broses adrodd i'w gweld yn y Llawlyfr Adolygiad.

5 Paratoi cyflwyniad y myfyrwyr

Mae cyfraniadau gan y myfyrwyr yn darparu gwybodaeth werthfawr iawn i'r tîm adolygu. Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn dystiolaeth allweddol ar gyfer y dadansoddiad pen desg a wneir gan y tîm adolygu am ei fod yn ddarn o dystiolaeth annibynnol a grëwyd gan y myfyrwyr i gynrychioli barn y corff myfyrwyr. Dylai cyflwyniad y myfyrwyr helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyriwr yn sefydliad y darparwr, a'r ffordd y mae'r darparwr a'r corff myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth. Mae'n rhoi safbwyntiau ehangach am brofiadau'r myfyrwyr, ochr yn ochr â thystiolaeth arall, megis data a hunanasesiad y darparwr. Mae'r tîm adolygu'n ceisio deall y ffordd y mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn prosesau penderfynu a sicrhau a gwella ansawdd a sut mae hyn yn effeithio ar eu profiadau fel myfyrwyr. Yn Atodiad 2 mae rhestr o gwestiynau a ddarperir fel canllaw i'r myfyrwyr i'w helpu wrth iddynt ysgrifennu eu cyflwyniad.

Dylai cyflwyniad y myfyrwyr:

- ✓ gynrychioli barn y corff myfyrwyr amrywiol
- ✓ roi cyfle i gorff cynrychioli'r myfyrwyr werthuso a dod i gasgliadau ynglŷn â sut mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'i fyfyrwyr
- ✓ werthuso'r ffordd y mae'r darparwr yn ymateb i bryderon a chyfraniadau'r myfyrwyr wrth gyd-drafod a llunio rhaglenni, polisïau a phrosesau academaidd
- ✓ gael ei seilio ar dystiolaeth a dylai esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau
- × beidio enwi, na thrafod gallu, aelodau unigol o staff
- × beidio cynnwys unrhyw gyfeiriad at gwynion personol
- ✓ hefyd roi cyfle i'r myfyrwyr dynnu sylw'r tîm adolygu at brosesau neu arferion sy'n gweithio'n arbennig o dda y byddai'r tîm adolygu eisiau eu hystyried efallai fel meysydd o arfer da
- ✓ fod yn gryno.

Waeth beth yw math neu ffurf cyflwyniad y myfyrwyr, os bydd yn cael ei lunio ar wahân i hunanasesiad y darparwr, dylai gynnwys datganiad yn esbonio sut y cafodd ei lunio, pwy gyfranogodd, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi cael ei rannu gyda chorff cynrychioli'r myfyrwyr a'i gefnogi ganddo.

Does dim hyd dangosol neu 'ddelfrydol' ar gyfer cyflwyniad y myfyrwyr. Gallai helpu i ddefnyddio rhai neu bob un o'r penawdau a ddarperir ar gyfer hunanasesiad y darparwr, ond does dim rhaid dilyn y rhain. Er bod cyflwyniad y myfyrwyr yn ddogfen ysgrifenedig fel arfer, mae modd defnyddio fformatau eraill, megis fideo, cyflwyniadau neu bodlediadau, neu gyfuniad o'r ffurfiau hyn - mae canllaw am gyflwyniadau mewn ffurfiau amgen i'w gael yn Atodiad 4. Gallai'r myfyrwyr hefyd gyfrannu sylwadau ar ddull 'vignette' i hunanasesiad y darparwr neu ddatblygu cyflwyniad hollol integredig ar y cyd gan y darparwr a'i fyfyrwyr. Rhaid i'r olaf hwn gael ei lofnodi'n glir gan y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Gallai'r myfyrwyr hefyd gyflwyno astudiaethau achos a wneir dan arweiniad y myfyrwyr ochr yn ochr â hunanasesiad y darparwr. Er nad yw pob corff sy'n cynrychioli myfyrwyr yn cynhyrchu adroddiadau ansawdd blynyddol, gall y rhain grynhoi'r heriau a welwyd a'r atebion a gafwyd a darparu tystiolaeth ar gyfer y broses adolygu.

Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ddarn arwyddocaol o dystiolaeth yn yr adolygiad ac, o'r herwydd, bydd yn aml yn cynnwys trafodaeth gyda staff a allai gefnogi'r myfyrwyr yn y broses o ddatblygu eu cyflwyniad. Disgwylir i'r broses adolygu fod yn agored a gonest sy'n golygu y bydd y darparwr a'i fyfyrwyr yn rhannu deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer yr adolygiad cyn ei lanlwytho i wefan electronig ddiogel QAA. Dylai hefyd osgoi cynnwys sylwadau gan fyfyrwyr unigol nad ydynt efallai'n gymwys i siarad fel cynrychiolwyr grŵp ehangach.

5.1 Dethol tystiolaeth

Mae QAA Cymru'n annog y myfyrwyr i ddefnyddio cyfresi data allanol sydd ar gael yn gyhoeddus, a data eraill sydd ar gael gan y darparwr er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer y sylwadau a geir yng nghyflwyniad y myfyrwyr. Gall QAA Cymru helpu i gyfeirio'r myfyrwyr at y data sydd ar gael, yn rhan o gamau paratoadol y broses adolygu. Efallai bod tystiolaeth i'w chael yn yr wybodaeth sy'n bodoli'n barod, canlyniadau arolygon a chanlyniadau yng nghofnodion cyfarfodydd â'r staff a'r myfyrwyr. Ni ddylai fod yn angenrheidiol cynnal arolygon yn arbennig ar gyfer cyflwyniad y myfyrwyr. Efallai y bydd myfyrwyr eisiau rhoi sylwadau ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr sy'n berthnasol i'w darparwr, neu ar wybodaeth am gyfraddau cwblhau ac am ganlyniadau a chyrchfannau graddedigion. Gallai'r myfyrwyr hefyd ystyried data neu wybodaeth arall sy'n cefnogi pwyntiau a godir yng nghyflwyniad y myfyrwyr. Mae QAA Cymru'n annog y darparwr i gefnogi ei fyfyrwyr i ganfod a defnyddio tystiolaeth.

Mae esiamplau o dystiolaeth i'w gweld yn Ffigur 1 - nid yw'r rhain yn unigryw ac nid ydynt wedi eu cyflwyno mewn unrhyw drefn o ran blaenoriaeth neu bwysigrwydd. Mae gan bob darparwr ei gyfres ei hun o dystiolaeth i hysbysu cyflwyniad y myfyrwyr.

Ffigur 1: Esiamplau o dystiolaeth i hysbysu cyflwyniad y myfyrwyr

- Strwythur y gynrychiolaeth fyfyrwyr a nifer y cynrychiolwyr myfyrwyr cyfredol
- Data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr
- Data'r Arolwg Profiad Myfyrwyr ÔI-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil ÔI-raddedig (PRES)
- Data arolygon mewnol (a wnaed gan y darparwr)

- Cofnodion a gwybodaeth a rannwyd mewn cyfarfodydd sy'n cynnwys myfyrwyr, megis pwyllgorau sicrhau ansawdd, byrddau astudiaethau, pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr - bydd enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau a'r grwpiau'n amrywio o ddarparwr i ddarparwr
- Strategaethau, polisïau a threfnau - er enghraifft, Strategaeth Ymgysylltiad Myfyrwyr, Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr, Siarter y Myfyrwyr
- Gwobrau dysgu dan arweiniad myfyrwyr
- Cyfranogaeth y myfyrwyr ym mentrau'r darparwr, megis i ehangu cyfranogaeth, adolygu dulliau asesu, neu gefnogi myfyrwyr o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig ac/neu'r rheiny o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Astudiaeth achos, sef darn byr o dystiolaeth i werthuso gweithgaredd penodol - er enghraifft, am y gwaith o ddatblygu neu ddiweddaru interniaethau a hwylusir gan y darparwr
- Canlyniadau unrhyw ymgyrchoedd neu fentrau dan arweiniad myfyrwyr sydd wedi gwella profiad y myfyrwyr - er enghraifft, estyniad i oriau agor y llyfrgell

Dylid rhannu cyflwyniadau'r myfyrwyr drwy wefan electronig ddiogel QAA. Mae'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn nodi'n fras beth yw'r dyddiad cau ar gyfer lanlwytho'r cyflwyniad, a bydd y Swyddog QAA penodedig yn cadarnhau'r union ddyddiad. Os oes unrhyw ansicrwydd, mae croeso i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gysylltu â QAA Cymru.

6 Y rolau mewn adolygiadau

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r prif rolau a chyfrifoldebau yn y prosesau adolygu. Mae'r rolau hyn yn gyffredin i'r dulliau adolygu Adolygiad APC ac Adolygiad GA, ond gallai'r cyfrifoldebau cysylltiedig amrywio. Gwelwch y Llawlyfr Adolygiad perthnasol i egluro'r cyfrifoldebau ar gyfer dull penodol.

6.1 Y myfyrwyr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Bydd rôl hanfodol gan gorff cynrychioli'r myfyrwyr drwy gefnogi'r myfyrwyr i gymryd rhan yn y broses adolygu ac fe'u gwahoddir i enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Gallai'r myfyrwyr gyfrannu i'r broses drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyn ac yn ystod yr ymweliad adolygu, enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, paratoi a chyfrannu at gyflwyniad y myfyrwyr, a datblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad.

Mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn bwysig i'r broses adolygu am eu bod yn helpu i sicrhau cyfathrebiad esmwyth rhwng y corff myfyrwyr, y darparwr a QAA. Yn ystod y broses adolygu, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cwrdd â'r tîm adolygu ac mae'n gyfrifol am gysylltu â'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu cyson rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr. Disgwylir y bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn derbyn copïau o ohebiaeth allweddol gan QAA Cymru. Disgwylir hefyd i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd gydweithio i ledaenu gwybodaeth am yr adolygiad.

Dyma weithgareddau allweddol y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr:

- goruchwylio a chydlynu'r gwaith o gynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr a chyfraniadau eraill gan y myfyrwyr fel y cytunwyd gyda'r darparwr
- helpu i ddethol y myfyrwyr a fydd yn cwrdd â'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliad a sicrhau cyfranogaeth barhaol gan y myfyrwyr drwy gydol y broses adolygu
- ar adeg rhannu'r adroddiad drafft gyda'r darparwr, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cydlynu sylwadau gan y corff myfyrwyr am yr adroddiad drafft ac yn gweithio gyda'r darparwr i ddatblygu cynllun gweithredu ar sail canfyddiadau'r adolygiad.

Os na fydd hi'n bosibl canfod Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, bydd QAA Cymru'n disgwyl cwrdd â detholiad o'r myfyrwyr a'u cynrychiolwyr, ar bob cam allweddol o'r broses adolygu. Os nad oes Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr wedi ei enwebu, neu os nad oes un wedi ei enwebu ar gamau cynnar y broses adolygu, mae'n bwysig bod cynrychiolydd o'r corff myfyrwyr ar gael i QAA Cymru fel prif gyswllt. Os nad oes corff ffurfiol sy'n cynrychioli'r myfyrwyr, dylai'r darparwr gefnogi ei fyfyrwyr i ganfod gwirfoddolwr o'u plith.

Mae'r rôl hon yn wirfoddol, a dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gael ei benodi gan y myfyrwyr eu hunain, gyda chymorth corff cynrychioli'r myfyrwyr, megis undeb y myfyrwyr neu gorff cyfatebol, o fewn y darparwr. Anogir darparwyr sydd heb undeb myfyrwyr ffurfiol (neu gorff cyfatebol) i ganfod ffyrdd o gynnwys eu myfyrwyr yn y broses. Os bydd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cael ei rhannu rhwng dau gynrychiolydd myfyrwyr, dylai'r darparwr roi gwybod i'r Swyddog QAA.

Bydd QAA Cymru'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn ystod y cyfarfod(ydd) perthnasol gyda'r darparwr, a fydd yn cynnwys cyngor am y broses adolygu a'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r broses yn gweithredu oddi mewn iddo. Am fod rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn bwysig ac mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ychwanegu gwerth i'r broses, disgwylir i'r darparwr gefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr drwy gydol y broses. Mae hyn yn cynnwys cymorth gweinyddol ac ymarferol lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol yn ystod y broses adolygu.

6.1.1 Trefniadau trosglwyddo rhwng y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr

Os bydd y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn newid yn ystod y broses adolygu, mae'n bwysig sicrhau y bydd trosglwyddiad priodol yn digwydd. Rhaid i'r trosglwyddiad sicrhau cysondeb a sicrhau nad yw cyfraniadau gan y myfyrwyr yn cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau a allai ddigwydd. Dylai'r darparwr a chorff cynrychiolwyr ei fyfyrwyr gydweithio i hwyluso trosglwyddiad effeithiol rhwng y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr sy'n ymadael a'r rhai newydd, ac i sicrhau bod y Swyddog QAA yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

Yn yr un modd, dylai unrhyw drosglwyddiad blynyddol rhwng swyddogion undeb y myfyrwyr neu gorff cyfatebol, gynnwys unrhyw fentrau neu gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adolygiad blaenorol a sut mae'r rhain yn mynd i'r afael â heriau y cytunwyd arnynt gan gyn-swyddogion o blith y myfyrwyr. Gallai fod yn ddefnyddiol cofnodi a chynnwys gwybodaeth am yr hyn a achosodd i benderfyniadau penodol lwyddo neu fethu wrth eu gweithredu, fel nad yw unrhyw wersi a ddysgir yn mynd yn angof wrth drosglwyddo rhwng cynrychiolwyr myfyrwyr sy'n ymadael a rhai sy'n dod i mewn o'r newydd. Bydd y trosglwyddiad hefyd yn gyfle i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd gan y myfyrwyr mewn partneriaeth â'u darparwr.

6.2 Yr Hwylusydd

Gwahoddir y darparwr i enwebu un aelod o'i staff a fydd yn hwyluso'r broses adolygu mewn cydweithrediad â'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn debyg i gyfrifoldebau'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, mae'r Hwylusydd yn sicrhau bod trefniadau'r broses adolygu a'r cyfathrebu perthnasol yn gyson. Yn ystod yr ymweliad(au) ar y safle, disgwylir i'r Hwylusydd roi cyngor ac arweiniad i'r tîm adolygu am strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr. Mae'r rôl hon yn helpu i gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth a fydd yn helpu i wneud y broses mor effeithlon o ran amser ag sy'n bosibl.

6.3 Y protocolau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd

Mae'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn nodi'r protocolau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd. Dylai pob un ohonynt arsyllu'r broses adolygu'n wrthrychol, ond ni ddylai unrhyw un ohonynt weithredu fel eiriolwr ar gyfer y darparwr na mynegi barn unochrog. Gallent ddod â gwybodaeth ychwanegol i sylw'r tîm adolygu a/neu geisio cywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir. Lle'r tîm adolygu yw penderfynu beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio gwybodaeth yn ystod y broses adolygu. Mae gofyn i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd gadw yr un confensiynau cyfrinachedd ag aelodau'r tîm adolygu. Ar yr amod bod cyfrinachedd yn cael ei barchu'n briodol, gellir gwneud nodiadau am drafodaethau gyda'r tîm adolygu a darparu adroddiad am hyn i'r staff neu i'r myfyrwyr, os bydd hynny'n sicrhau eu bod yn deall y materion a godwyd yn dda.

Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd:	**Ni ddylai unrhyw un ohonynt:**
✓ arsyllu'r broses adolygu'n wrthrychol ✓ gyfathrebu'n glir gyda'r tîm adolygu a'r Swyddog QAA ✓ helpu'r darparwr a'i gorff myfyrwyr i ddeall materion a godir gan y tîm adolygu ✓ gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir ✓ gadw yr un confensiynau cyfrinachedd	× weithredu fel eiriolwr ar gyfer y darparwr neu fynegi barn unochrog × ddefnyddio unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn ystod y broses adolygu mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod

Bydd y Llawlyfr Adolygiad perthnasol yn nodi'r protocolau ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd. Os bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a/neu'r Hwylusydd yn bresennol, caniateir iddyn nhw arsyllu'r cyfarfodydd, ond ni ddylent gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n eu gwahodd i wneud hynny. Caniateir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd gymryd nodiadau yn ystod y cyfarfodydd, ond dylent eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y tîm adolygu'r hawl i ofyn i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a/neu'r Hwylusydd adael y broses adolygu ar unrhyw bwynt, os bydd yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau, neu fod eu presenoldeb yn amharu ar y trafodaethau.

Y cyfarfodydd	**Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr**	**Yr Hwylusydd**
Cyfarfodydd y tîm adolygu gyda myfyrwyr	✓	×
Cyfarfodydd y tîm adolygu	✓	✓

gydag aelodau o'r staff	(os oes cytundeb gan y tîm adolygu)	
Cyfarfod terfynol y tîm adolygu, fel y bo'n berthnasol i'r dull adolygu penodol	✓	✓
Cyfarfodydd preifat y tîm adolygu	✓ (os oes cytundeb gan y tîm adolygu)	✓ (os oes cytundeb gan y tîm adolygu)
Cyfarfod y tîm adolygu i gytuno ar y canfyddiadau a'r beirniadaethau	×	×

6.4 Y Swyddog QAA

Bydd Swyddog QAA a benodir gan QAA yn cydlynu ac yn rheoli'r broses adolygu, yn cefnogi'r darparwr ac yn rhoi cyngor i'r tîm adolygu. Gall y Swyddog QAA roi cymorth a chyngor i gorff cynrychioli'r myfyrwyr ynglŷn â'r ffordd orau o weithio gyda'r tîm, ar ba feysydd y mae'r darparwr yn canolbwyntio a sut i gymryd rhan effeithiol yn y broses adolygu. Bydd y Swyddog QAA yn bresennol drwy gydol y broses adolygu, ond ni fydd yn dylanwadu ar ystyriaethau, casgliadau neu ganfyddiadau'r tîm adolygu. Bydd y swyddog yn sicrhau bod y broses adolygu gyfan yn cael ei gweithredu yn ôl y dull cyhoeddedig, a bod casgliadau'r adolygiad wedi eu hategu gan y dystiolaeth a'u bod yn gadarn.

Mae'r Swyddog QAA yn hwyluso cyfathrebu rhwng y tîm adolygu, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, yr Hwylusydd a'r darparwr, yn rheoli'r trefniadau ymarferol, yn cadeirio cyfarfodydd y tîm adolygu, yn golygu adroddiadau'r adolygiad, ac yn cysylltu â'r darparwr am unrhyw weithgareddau dilyniant.

6.5 Y tîm adolygu

Y tîm adolygu yw'r tîm sy'n dadansoddi'r dystiolaeth a ddarparwyd ac yn cynnal cyfarfodydd gyda myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid. Fel arfer, bydd y tîm adolygu'n cynnwys rhwng tri a phum adolygwr sy'n academyddion, myfyrwyr a gweinyddwyr ym maes addysg uwch, ac sy'n bodloni'r meini prawf gosodedig ar gyfer adolygwyr QAA. Bydd pob tîm adolygu'n cynnwys adolygwr sy'n fyfyriwr fel aelod llawn a chyfartal o'r tîm. Mae pob adolygwr wedi ei hyfforddi'n llawn yn y dull adolygu perthnasol.

Atodiad 1: Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn rhoi diffiniadau byr o dermau a ddefnyddir yn y canllaw hwn. Nid yw'r diffiniadau'n gynhwysfawr a dylid defnyddio'r rhestr termau hon ochr yn ochr â'r llawlyfr adolygiad perthnasol.

Term	Diffiniad
addysg drawswladol	Mae addysg drawswladol yn cyfeirio at gyfleoedd dysgu mewn addysg uwch a ddarperir y tu allan i'r DU, ond sy'n arwain at ddyfarniad gan gorff dyfarnu graddau'r DU.
amodau	Gosodir amodau lle rhoddwyd beirniadaethau 'anfoddhaol' i bennu'r materion sy'n achosi pryder mwy sylweddol neu'r materion hynny y bydd y camau dilyniant sy'n ofynnol i gwblhau'r adolygiad yn canolbwyntio arnynt. Bydd yr amodau'n adlewyrchu'r argymhellion hynny yr ystyrir bod angen gweithredu arnynt yn ddifrifol ac ar frys.
ansawdd academaidd	Mae ansawdd academaidd yn derm cynhwysfawr sy'n cyfeirio at y ffordd mae darparwyr addysg uwch yn rheoli cyfleoedd dysgu ac addysgu, a pha mor dda maent yn eu rheoli, a'r gefnogaeth y maent yn ei rhoi i'w myfyrwyr i'w helpu i symud ymlaen, llwyddo a chael y canlyniadau gorau.
argymhelliad	Mae timau adolygu'n gwneud argymhellion lle maent yn cytuno y dylai darparwr ystyried newid arferion, polisïau neu brosesau er mwyn diogelu safonau academaidd a sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu.
arholwr allanol	Arbenigwr annibynnol a benodir gan ddarparwr i roi sylwadau ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â safonau academaidd sefydledig ac i edrych ar ddulliau o ymdrin ag asesiad.
cadarnhad	Cadarnhad yw cydnabyddiaeth o weithred, sy'n digwydd yn barod yn sefydliad y darparwr ar sail y defnydd effeithiol a wneir gan y darparwr o'i weithdrefnau ansawdd ei hun, i wella gwendid neu elfen annigonol sydd wedi eu canfod yn y meysydd beirniadaeth.
canmoliaeth	Gallai'r tîm adolygu ganmol arfer y maent yn ei ystyried yn broses neu'n ffordd o weithio sy'n gwneud cyfraniad arbennig o bositif i brofiad dysgu'r myfyrwyr yng nghyd-destun y darparwr.
corff cynrychiolwyr myfyrwyr	Corff sy'n cynrychioli barn myfyrwyr y darparwr ar y cyd. Mewn nifer fawr o ddarparwyr, mae undeb ffurfiol neu gymdeithas ffurfiol y myfyrwyr. Fel arfer, mae gan y strwythurau hyn swyddogion sy'n cael eu hethol gan y corff myfyrwyr ac mae cynrychiolydd yn arwain y cwbl - llywydd y myfyrwyr, er enghraifft.
corff llywodraethu	Y corff llywodraethu yw'r grŵp sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad. Enw arall ar y corff llywodraethu yw'r Cyngor. Mae'n cynnwys aelodau mewnol ac allanol. Mae ei aelodau mewnol yn cynnwys pennaeth y darparwr a chynrychiolwyr ei fyfyrwyr a'i staff. Penodir aelodau allanol i'r corff llywodraethu sydd â phrofiadau sy'n werthfawr i'r darparwr. Mae'r darparwr yn atebol i'r corff llywodraethu.

credyd	Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi ei fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol. Mae'r nifer o gredydau ar lefel credyd benodol yn nodi maint ac anhawster y dysgu a gyflawnwyd, ar sail oriau tybiannol o ddysgu. Gwelwch hefyd 'What is Credit? A guide for students' (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd).
Term (parhad)	**Diffiniad**
darparwyr a reoleiddir	Darparwr a reoleiddir yw darparwr addysg uwch sy'n atebol i'r pwerau rheoleiddio sydd gan CCAUC. Mae rhagor o wybodaeth a rhestr o ddarparwyr a reoleiddir i'w gweld ar wefan CCAUC.
gwelliant	Y broses y mae darparwyr yn ei defnyddio i gymryd camau pwrpasol i wneud profiadau dysgu'r myfyrwyr yn fwy effeithiol.
meysydd i ganolbwyntio arnynt	Mae darparwr yn dewis meysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn dangos dull y darparwr hwnnw o reoli a gwella ei ddarpariaeth. Maes i ganolbwyntio arno yw maes sydd â ffocws strategol i'r darparwr, a gallai berthyn i un o nifer o gategorïau. Gallai fod yn faes o her y mae'r darparwr yn ceisio ymdrin ag o, gallai fod yn faes y rhoddwyd pwyslais strategol arbennig arno, gallai adlewyrchu buddsoddiad mewn menter newid, neu gallai fod yn esiampl o arfer canmoladwy. Ar gyfer yr Adolygiad GA, gall y darparwr gynnig tri neu bedwar maes i ganolbwyntio arnynt.
safonau academaidd	Safonau academaidd yw'r safonau a osodir gan gyrff dyfarnu graddau ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Mae darparwyr yn gyfrifol am ddiffinio eu safonau academaidd eu hunain drwy osod y marciau pasio a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthu cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyflawniad y myfyrwyr sy'n uwch ac sy'n is na'r safonau academaidd trothwy. Gwelwch hefyd 'safonau academaidd trothwy'.
safonau academaidd trothwy	Safonau academaidd trothwy yw'r lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyriwr ei ddangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi eu disgrifio yn y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol, y datganiadau nodweddion cymhwyster a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc.
sail tystiolaeth	Mae casgliadau'r darparwr (yn ei hunanasesiad) neu'r tîm adolygu wedi eu seilio ar dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys data meintiol ac ansoddol, cofnodion o gyfarfodydd a phapurau sy'n cynnwys deunyddiau a gyflwynwyd i'r tîm adolygu yn rhan o'r broses adolygu. Mae canfyddiadau o gyfarfodydd a gynhelir yn ystod yr ymweliad adolygu hefyd yn cyfrannu at y sail tystiolaeth.
sicrhau ansawdd	Monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu'n systematig, a'r prosesau sy'n eu cefnogi, i sicrhau bod safonau dyfarniadau academaidd yn cwrdd â'r Disgwyliadau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd, a bod ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr yn cael ei ddiogelu a'i wella.
Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma Cenedlaethol Uwch	Mae'r Dystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) yn gymhwyster sydd wedi ei osod ar lefel 4 yn y FHEQ. Mae'r Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) yn gymhwyster sydd wedi ei osod ar lefel 5 yn y FHEQ. Dyfernir y cymwysterau hyn gan Pearson Education Ltd neu gan gorff dyfarnu graddau o dan drwydded Pearson.

uniondeb academaidd	Mae'r term 'uniondeb academaidd' yn cyfeirio at god ymarfer sy'n cael ei fabwysiadu a'i dderbyn yn gyffredinol gan ddarparwyr addysg uwch a rhanddeiliaid. Deellir yn gyffredinol ei fod yn cwmpasu ystod o werthoedd sy'n ymwneud â gonestrwydd a thrylwyredd mewn gweithgareddau academaidd - gwyliwch y fideo hwn sy'n esbonio beth ydyw, beth fydd canlyniadau camymddwyn academaidd, a pha gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr.

Atodiad 2: Cwestiynau i helpu gyda'r gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr

Darperir y cwestiynau hyn fel hwb i helpu'r myfyrwyr yn eu gwaith o ddatblygu eu cyflwyniad. Does dim rhaid ateb pob un ac nid ydynt yn ffurfio templed. Dylai pob ateb fod wedi ei seilio ar dystiolaeth a chynrychioli barn y corff myfyrwyr ehangach.

Gallai'r cwestiynau hyn fod yn ddefnyddiol hefyd mewn trafodaethau gyda myfyrwyr am y 'math' o gwestiynau a allai gael eu gofyn yng nghyfarfodydd y tîm adolygu gyda myfyrwyr.

- A yw dull y darparwr o recriwtio a derbyn myfyrwyr yn deg, yn eglur ac yn gyson?
- A yw'r darparwr yn ceisio canfod anghenion y myfyriwr unigol? I ba raddau mae'r darparwr yn cefnogi anghenion unigol y darparwr?
- A yw'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y darparwr yn gywir ac yn gyfoes?
- A yw'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am yr hyn y bydd angen iddynt ei ddysgu a'i gyflawni er mwyn llwyddo?
- A yw'r cyrsiau wedi eu llunio'n dda ac yn ddigon heriol?
- A ddefnyddir amrywiaeth o wahanol ddulliau dysgu ac addysgu i allu addasu i'r gwahanol ffyrdd o ddysgu ymysg y myfyrwyr?
- A oes cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith? A oes cyngor ac arweiniad priodol ar gael i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith?
- A yw'r myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses o wirio bod cyrsiau'n berthnasol ac wedi eu diweddaru bob amser, megis drwy gymryd rhan mewn arolygon neu werthusiadau cwrs a modiwl, neu banelau cymeradwyo?
- A yw'r myfyrwyr yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson ac mewn ffyrdd sy'n profi'r hyn a ddysgwyd, ac sy'n gyson â'r ddogfennaeth rhaglen sy'n ymwneud â chanlyniadau'r cwrs?
- A yw'r myfyrwyr yn derbyn adborth ar asesiadau sy'n amserol, yn ddefnyddiol ac yn adeiladol? A yw'n pennu sut y gallai myfyrwyr wella?
- A yw'r myfyrwyr yn derbyn arweiniad am uniondeb academaidd a chyngor ar sut i osgoi camymddwyn academaidd?
- A oes adroddiadau arholwyr allanol ar gael i gynrychiolwyr y myfyrwyr eu darllen a rhoi sylwadau amdanynt? A yw tîm y cwrs - neu, ar lefel uwch, y darparwr - yn cymryd camau mewn ymateb i'r sylwadau hyn? Ydych chi'n cael gwybod am y camau y maent yn eu cymryd?
- A yw'r darparwr yn galluogi i'w fyfyrwyr fod yn ddysgwyr annibynnol, a datblygu eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol? A yw'r myfyrwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol?
- A yw cwynion am brofiad y myfyrwyr ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau academaidd yn cael eu trin mewn ffordd deg ac amserol?

- A yw'r darparwr yn creu amgylchedd i fyfyrwyr ymchwil lle gallent ddysgu sut i wneud gwaith ymchwil a chyflawni canlyniadau ar lefelau academaidd, personol a phroffesiynol?
- Pa strwythurau o gynrychiolaeth myfyrwyr sydd yn eu lle? Pa gefnogaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr gan y darparwr i gefnogi'r strwythurau hyn?
- Pa mor weledol a hygyrch yw'r strwythur cynrychioli myfyrwyr i'r corff myfyrwyr?
- I ba raddau mae strategaethau a dulliau'r darparwr yn annog cydweithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr?
- A yw'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y strwythurau cynrychioli myfyrwyr yn adlewyrchu'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr? A oes unrhyw grwpiau o fyfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu neu sy'n anoddach ymgysylltu â nhw?
- Sut mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd? Ymhle mae myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar bwyllgorau penderfynu?
- A yw'r myfyrwyr yn cael eu hysbysu am gamau a gymerwyd neu newidiadau a wnaed mewn ymateb i'w hadborth?
- A yw'r darparwr yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan ei fyfyrwyr at brosesau sicrhau a gwella ansawdd? Os ydyw, sut?
- A oes cyfleoedd i addysgu, dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i fyfyrwyr ac a ydyn nhw'n hygyrch iawn?

Atodiad 3: Rhestr wirio o weithgareddau allweddol y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr mewn prosesau adolygu

Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r gweithgareddau allweddol y mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cymryd rhan ynddyn nhw yn ystod y broses adolygu a'r gwaith o baratoi ar gyfer yr ymweliad(au) ar y safle. Mae modd ei argraffu a gellir ei ddefnyddio fel cofnod i nodi beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn a pha weithgareddau sydd ar ôl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi'r dyddiadau allweddol i mewn pan maen nhw'n hysbys, fel dyddiadau'r ymweliad(au) ar y safle. Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd gydweithio yn ystod y broses adolygu i gefnogi'r broses a'r tîm adolygu.

Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr	**Cwblhawyd (✓)**
Corff cynrychioli'r myfyrwyr yn enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cwrdd â'r Hwylusydd i drafod sut y bydd y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn gallu cyfrannu at hunanasesiad y darparwr	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ystyried pa mor werthfawr fyddai cynnal digwyddiad i hysbysu'r corff myfyrwyr a'i gynrychiolwyr am y broses adolygu a'r ffyrdd y gall myfyrwyr gyfrannu i'r broses	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn trafod gyda'r Hwylusydd sut y gall myfyrwyr gyfrannu i'r broses adolygu a'i chefnogi, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn grwpiau ffocws, trafodaethau, grwpiau cynllunio, gweithgorau neu weithgareddau eraill	
Dylai'r corff myfyrwyr a'i gynrychiolwyr adolygu a gwerthuso'r gwaith a gwblhawyd gan y darparwr ers yr adolygiad diwethaf (fel y bo'n briodol); bydd hyn yn golygu bod modd datblygu barn y corff myfyrwyr cyfan ar gynnydd, newid ac anghenion datblygu pellach - gellir cofnodi hyn yn yng nghyflwyniad y myfyrwyr	
Dylai'r corff myfyrwyr a'i gynrychiolwyr gasglu ac adolygu unrhyw nodiadau neu gofnodion am eu cyfranogaeth mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ystyried pa fathau o wybodaeth ansoddol a meintiol sy'n bodoli'n barod gan y darparwr sy'n cofnodi barn y myfyrwyr; gall y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ofyn am arweiniad gan QAA Cymru os bydd angen	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ddechrau ystyried cwmpas a chynllun cyflwyniad y myfyrwyr	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr dynnu sylw at unrhyw feysydd o ymgysylltiad y myfyrwyr yr hoffai'r corff myfyrwyr a'i gynrychiolwyr weld y broses adolygu'n canolbwyntio arnynt	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd yn mynd i'r cyfarfod(ydd) rhwng y Swyddog QAA a'r darparwr: **Dyddiad y cyfarfod gyda'r darparwr:**.....(rhowch y dyddiad pan fydd yn hysbys)	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn trafod gyda'r Hwylusydd pa gefnogaeth allai fod yn ofynnol, megis cymorth gweinyddol neu help gyda threfnu digwyddiadau briffio	

Os bydd hi'n debygol na fydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn astudio bellach gyda'r darparwr ar adeg yr ymweliad(au) adolygu ar y safle, dylid sicrhau bod swyddog newydd yn cymryd y rôl a threfnu cyfarfod trosglwyddo	
Gwaith cychwynnol o baratoi a chyflwyno	**Cwblhawyd (✓)**
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cwblhau cyflwyniad y myfyrwyr ac yn ei rannu gyda chorff cynrychioli'r myfyrwyr a'r Hwylusydd	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn lanlwytho cyflwyniad y myfyrwyr **Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:** .....(rhowch y dyddiad pan fydd yn hysbys)	
Paratoi ar gyfer yr ymweliad(au) adolygu ar y safle	**Cwblhawyd (✓)**
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn ystyried yr amserlen ddrafft ar gyfer yr ymweliad adolygu ac yn dethol y myfyrwyr a fydd yn cwrdd â'r tîm adolygu - byddai'n ddefnyddiol defnyddio dull matrics i sicrhau bod amrywiaeth o fyfyrwyr yn cael ei chynnwys	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill sydd gan y myfyrwyr y mae'r tîm adolygu wedi gofyn amdanynt drwy'r Swyddog QAA	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ystyried cynnal digwyddiad i gynrychiolwyr y myfyrwyr cyn yr ymweliad(au) ar y safle i roi cyfle iddyn nhw ofyn cwestiynau a chael eglurhad am y broses, hunanasesiad y darparwr a/neu gyflwyniad y myfyrwyr	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr rannu unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer y cyfarfod gyda'r tîm adolygu	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr adolygu eu hamserlen bersonol eu hunain a mynd ati i gwblhau gofynion mewn digonedd o amser cyn dyddiadau cau asesiadau, ac ati	
Yr ymweliad(au) adolygu ar y safle	**Cwblhawyd (✓)**
Y dyddiadau wedi eu hamserlennu ar gyfer yr ymweliad(au) ar y safle: .....(rhowch y dyddiadau pan fyddent yn hysbys)	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd yn sefydlu perthynas waith gyfartal gyda'r tîm adolygu	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn adolygu'r amserlen (wedi ei diweddaru) ar gyfer yr ymweliad adolygu ar y cyd â'r Hwylusydd	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r Hwylusydd am enwau'r myfyrwyr a fydd yn cwrdd â'r tîm adolygu - i'w pasio ymlaen i'r Swyddog QAA	
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod ar gael i fynd i'r cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Swyddog QAA a'r tîm adolygu fel y bo'n angenrheidiol; dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr geisio sicrhau bod unrhyw waith gyda'r Hwylusydd a'r tîm adolygu wedi ei amserlennu o amgylch unrhyw ymrwymiadau academaidd, megis darlithoedd a seminarau	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd yn cydweithio â'r tîm adolygu i ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen i esbonio materion yn glir	

Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r Hwylusydd yn mynd i gyfarfod terfynol y tîm adolygu lle rhennir adborth nad yw'n rhwymol (yn dibynnu ar y dull adolygu penodol)	
Adrodd am y canlyniadau	**Cwblhawyd (✓)**
Dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod ar gael i roi sylwadau ar yr adroddiadau drafft i gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir	
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar yr adroddiad drafft i'r Hwylusydd: .....(rhowch y dyddiad pan fydd yn hysbys)	
Ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r corff myfyrwyr a'i gynrychiolwyr, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw feysydd y gallai'r darparwr eu blaenoriaethu	
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a chorff cynrychioli'r myfyrwyr yn gweithio gyda'r darparwr i ddatblygu'r cynllun gweithredu (fel y bo'n briodol)	

Atodiad 4: Canllawiau ar gyflwyniadau amgen gan fyfyrwyr yn adolygiadau QAA

Nod y canllawiau hyn yw rhoi cymorth i'r myfyrwyr sydd eisiau rhoi cyflwyniadau mewn fformat nad yw'n ysgrifenedig ar gyfer adolygiadau QAA Cymru, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu tystiolaeth sy'n ddefnyddiol i'r tîm adolygu. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'r Llawlyfr Adolygiad perthnasol.

Sylwadau cyffredinol

Gall creu cyflwyniad nad yw'n ysgrifenedig fod yn ffordd wych o adlewyrchu'r profiad arbennig yn eich sefydliad darparu, a gallai helpu i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn cyfranogi yn y broses. Cofiwch mai dyma'r cyfle gorau i sylwadau'r myfyrwyr gael eu cyfrannu i'r broses adolygu - mae'n bwysig bod yr adolygiad yn effeithiol o ran rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r tîm adolygu.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gynnwys dogfen gefnogol ysgrifenedig hefyd, er mwyn rhoi gwybodaeth gefndir a fyddai fel arall yn anodd ei chyflwyno, megis ffynonellau tystiolaeth a manylion am y corff myfyrwyr.

Preifatrwydd

Cofiwch fod parchu preifatrwydd y cyfranogwyr yn bwysig i bob math o gyflwyniad. Os ydych yn bwriadu rhannu'r cyflwyniad gyda'r corff myfyrwyr ehangach, gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn gwirio gyda'r rheiny sy'n cyfranogi eu bod yn hapus i'w clip fideo neu eu sylw bachog gael eu cyhoeddi, oherwydd mae'n bosibl y gallai eich darparwr adnabod y cyfranogwyr hynny. Os bydd rhai o'r myfyrwyr eisiau aros yn ddienw wrth roi tystiolaeth, gellir cymryd camau i osgoi dangos pwy ydyn nhw (naill ai drwy ffilmio'n ofalus, neu drwy ddefnyddio podlediad neu unrhyw ddogfen gefnogol ysgrifenedig).

Cyflwyniadau fideo[1]

Gall cyflwyniadau fideo fod yn ffordd wych o ddangos i dimau adolygu mewn ffordd uniongyrchol iawn beth yw barn myfyrwyr am eu darparwr. Gallent hefyd fod yn ddryslyd ac yn anodd eu dilyn os nad ydynt wedi eu recordio'n glir - dylech sicrhau bod gan y cyflwyniad fideo leisiau clywadwy, a strwythur clir, a chynnwys sy'n berthnasol i'r adolygiad. Dylent hefyd gynnwys rhyw fath o gyflwyniad yn rhoi'r wybodaeth gefndir berthnasol sy'n galluogi i'r tîm adolygu ddeall yr hyn y maen nhw ar fin ei weld. Byddai hwn yn gyfle da i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â phwy sydd wedi cymryd rhan yn y cyflwyniad, y myfyrwyr nad yw'n ymwneud â nhw, ac o ble mae'r dystiolaeth wedi dod.

Ni fyddai taith fideo o amgylch eich campws, neu ffilmio un grŵp ffocws heb unrhyw gasgliadau, o unrhyw ddefnydd i'r tîm adolygu. Os byddwch yn ffilmio grwpiau ffocws neu gyfweliadau gyda myfyrwyr fel rhan o'ch cyflwyniad, sicrhewch eich bod yn esbonio sut maent wedi eu rhoi at ei gilydd, pwy oedd yn cymryd rhan a beth oedd y casgliadau ar draws yr holl grwpiau ffocws a chyfweliadau.

Efallai y dylech ystyried cefnogi'r rhain gyda thystiolaeth a defnyddio clipiau i bwysleisio pwyntiau.

---

[1] Mae gwefan electronig ddiogel QAA sy'n cynnal dogfennau ar gyfer y broses adolygu'n cyfyngu ar faint rhai ffeiliau sain a fideo. Gallai hyn olygu bod yn rhaid rhannu cyflwyniadau sain a fideo'n ffeiliau llai cyn eu cyflwyno. Bydd cyfarwyddyd am y meintiau a'r ffurfiau sy'n briodol i ffeiliau sain a fideo'n cael ei rannu yn ystod y cyfarfod cychwynnol gyda'r darparwr.

Er enghraifft, os byddwch eisiau dangos bod myfyrwyr yn hapus bod eu hadborth yn cael ei weithredu, dewch o hyd i ystadegau sy'n dangos hyn (megis o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr), a defnyddiwch glipiau o fyfyrwyr i gefnogi hyn. Cofiwch y gallwch ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig i helpu gyda hyn.

Os oes gan eich darparwr fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn cynhyrchu ffilmiau neu gyfryngau, efallai y byddent eisiau cymryd rhan yn y broses o gynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr. Ond cofiwch nad ydych chi a'ch darparwr yn cael eich beirniadu am eich sgiliau cynhyrchu ffilmiau! Y peth pwysicaf yw sicrhau bod y tîm adolygu'n cael dealltwriaeth glir o'r materion yr ydych yn eu codi, a'u bod yn gallu gweld bod yno dystiolaeth glir.

Yn nhermau fformat, gallwch gyflwyno ffeiliau fideo a dogfennau cefnogol yn yr un ffolder wrth eu lanlwytho i'r wefan electronig ddiogel. Argymhellir yn gryf fod y fideo mewn fformat sy'n gyfatebol â Windows Media Player er mwyn cadw pethau'n gyson i'r tîm adolygu: **.wmv**, **.avi**, **.wmd** neu **.wav**. Maint mwyaf y ffeil yw 80MB.

Cyflwyniadau ar ffurf podlediad

Dylai cyflwyniadau'r myfyrwyr ar ffurf podlediad neu sylw bachog ddilyn egwyddorion tebyg i gyflwyniadau fideo. Gall podlediadau fod yn arbennig o ddefnyddiol i sicrhau barn y myfyrwyr nad ydynt eisiau bod ar gamera. Ond, dylech fod yn ofalus i sicrhau bod y recordiadau'n glywadwy a'i bod hi'n glir i'r gynulleidfa ar beth maen nhw'n gwrando.

Ni fydd y tîm adolygu'n cael cyfweliadau gyda myfyrwyr unigol yn ddefnyddiol os nad oes unrhyw gasgliadau ganddynt. Yn debyg i gyflwyniadau fideo, argymhellir eich bod yn rhoi tystiolaeth i gefnogi unrhyw recordiadau o fyfyrwyr yn siarad. Er enghraifft, os ydych eisiau dangos bod myfyrwyr yn pryderu am fynediad i'r llyfrgell, dewch o hyd i ystadegau i gefnogi hyn a chyflwynwch y ffigurau ochr yn ochr â recordiadau o fyfyrwyr. Cofiwch gallwch ddefnyddio rhywfaint o dystiolaeth ysgrifenedig i helpu gyda hyn.

I gadw pethau'n gyson i'r tîm adolygu, dyma'r fformatau ffeil sy'n dderbyniol ar gyfer cyflwyniadau sydd ar ffurf podlediad neu sylw bachog: **.wmv**, **.avi**, **.mp3** neu **.wav**.

Cyflwyniadau

Gall y lluniau neu gyflwyniadau eraill ddarparu cynrychiolaeth weledol o farn y myfyrwyr. Efallai y byddwch eisiau sicrhau cyfranogaeth myfyrwyr sy'n astudio celf neu ddylunio yn y gwaith. Gallech gyflwyno clawr graffeg gwybodaeth o'r adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys cynrychiolaeth weledol o ystadegau neu sylwadau allweddol.

Ond cofiwch, dylai eich cyflwyniad myfyrwyr gwrdd â'r meini prawf allweddol yn y sylwadau cyffredinol uchod.

Dylid anfon y cyflwyniadau hyn fel ffeil **.pdf**.

Lanlwytho

Dylid lanlwytho'r holl gyflwyniadau i wefan electronig ddiogel QAA. Bydd yr hwylusydd yn cydlynu'r broses lanlwytho. Efallai y byddwch eisiau anfon copïau caled atom - er enghraifft disgiau CD. Labelwch y rhain yn eglur os gwelwch yn dda a darparu copïau digonol i bob aelod o'r tîm adolygu.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk